

Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol – dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgyngoriad

Awst 2016

Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol – dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol y CFC.

Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 13 wythnos o 4 Ebrill hyd 27 Mehefin 2016. Derbyniom 1,295 o ymatebion ysgrifenedig i’r ymgynghoriad. Hefyd, gwnaethom drafod y safonau mewn 35 digwyddiad ar y cyd gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, cleifion ac aelodau o’r cyhoedd, gan ymgysylltu â 378 o gleifion ac aelodau o’r cyhoedd a 1,279 o weithwyr fferyllol proffesiynol drwy ddigwyddiadau a gynhaliwyd ledled Prydain Fawr.

Ymatebion ysgrifenedig

O'r rheini a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig, roedd 104 yn sefydliadau a 1,191 yn unigolion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebion yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr unigol (1,123, tua 95 y cant) yn dweud eu bod yn weithiwr fferyllol proffesiynol. Dywedodd tua 2 y cant (25) ohonynt eu bod yn aelod o'r cyhoedd. Dywedodd ychydig dros 1 y cant (14) ohonynt eu bod yn fyfyrwr a dywedodd ychydig dan 1 y cant (7) eu bod yn hyfforddai cyn-gofrestru. Disgrifiodd un ar ddeg ymatebwr eu hunain fel "arall", yn cynnwys academyddion, aelodau o bwllgorau'r CFFC, a fferylllydd wedi ymddeol. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr unigol nodi ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb. Roedd tua dwy ran o dair (750) o'r rheini a ddisgrifiodd eu hunain fel "gweithiwr fferyllol proffesiynol" yn fferyllwyr, tra bod tua thraean (373) yn dechnegwyr fferyllol. Gellir gweld rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn atodiad A.

Digwyddiadau ymgysylltu

Roedd digwyddiadau ymgysylltu hefyd yn rhan hollbwysig o'r gweithgareddau ymgynghori ac roeddent yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn cyrraedd y grwpiau hynny a oedd yn llai tebygol o ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r ffurflen ar-lein, ac yn cynnwys cleifion ac aelodau o'r cyhoedd unigol a myfyrwyr fferyllol. Gwnaethom gymryd rhan mewn 35 digwyddiad ledled Prydain Fawr, gyda 15 o'r digwyddiadau hyn wedi eu trefnu gan y CFFC ac 20 wedi'u trefnu gan sefydliadau eraill. Gwnaethom hefyd gynnal nifer o gyfarfodydd unigol gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn clywed eu barn am yr ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi eu cynnwys yn atodiad B.

Mynychwyd ein digwyddiadau gan amrywiaeth o ddefnyddwyr fferyllfeydd – cleifion, gofalwr, rhieni, rhai â chyflyrau hirdymor, yn ogystal â'r rheini sy'n casglu presgripsiynau o bryd i'w gilydd. Roeddent yn defnyddio amrywiaeth o fferyllfeydd, rhai annibynnol, fferyllfeydd archfarchnad neu fferyllfeydd ar y stryd fawr. Clywsom am lawer o wahanol brofiadau o ddefnyddio gwasanaethau fferyllfa, gyda'r rhan fwyaf yn gadarnhaol ond nid pob un. Ar y cyfan, roedd pobl yn ymddiried mewn fferyllfeydd ac yn eu gwerthfawrogi, ond nid oedd pobl bob amser yn ymwybodol o'r holl wahanol wasanaethau oedd ar gael.

Teimlai pobl fod y safonau'n hawdd i'w deall ar roedd cyfranogwyr yn ein digwyddiadau rhanddeiliaid yn cytuno gyda'r safonau yn gyffredinol. Dywedasant fod y safonau'n adlewyrchu'r hyn y byddent yn ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol, neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Dadansoddiad

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn strwythur y ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r holiadur.

Cyflwynwyd y mwyafrif helaeth o ymatebion drwy SmartSurvey gan ddefnyddio holiadur ffurfiol yr ymgynghoriad. Adroddir ar yr ymatebion i'r cwestiynau ydy/nac ydy/ydyn/nac ydyn/ydw/nac ydw/oes/nac oes gan roi nifer yr ymatebwyr yn ogystal â'r canrannau.

Dadansoddwyd ymatebion i'r cwestiynau agored gan ddefnyddio proses godio iteraidd, lle nodwyd themâu a oedd yn ymddangos o'r ymatebion. Caiff y prif themâu neu bynciau eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn yn y testun naratif o dan bob cwestiwn perthnasol. Fe wnaeth y ffrâm codio thematig hefyd hysbysu'r dadansoddiad o ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost neu'r post, a chaiff y rhain hefyd eu hadrodd yn y testun naratif. Yn olaf, caiff canfyddiadau allweddol o ddigwyddiadau gyda defnyddwyr fferyllfeydd yn ogystal â myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol hefyd eu cynnwys yn yr adroddiad.

Dylid nodi, er y cafwyd tua 1,200 o ymatebion i'r cwestiynau meintiol, ydy/nac ydy/ydyn/nac ydyn/ydw/nac ydw/oes/nac oes, roedd nifer yr ymatebion yn llawer is ar gyfer y cwestiynau ansoddol, agored, a oedd fel arfer yn tua ychydig gannoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r pynciau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl faterion a godwyd yn y cyfraniadau hyn a, lle bo hynny'n berthnasol, fe'u cynhwyswyd yn yr adroddiad hwn.

Beth a glywsom

Ar y cyfan, cafodd y safonau dderbyniad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, fel y disgwyliwyd, cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach neu geisiadau am eglurhad pellach fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno materion allweddol a godwyd o dan bob adran o'r ymgynghoriad ac mae'n dilyn trefn holiadur yr ymgynghoriad, gyda barn a fynegwyd yn nigwyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Cyd-destun

1. Ydy'r cyflwyniad yn eglur?

Ydy	1,214	97.43%
Nac ydy	32	2.57%
Cyfanswm	1,246	100.00%

1a. Beth arall, os unrhyw beth, dylid ei ychwanegu at neu ei ddileu o'r cyflwyniad?

Teimlwyd bod y cyflwyniad i'r safonau yn glir iawn gan bron pob ymatebydd ond hefyd cynigiwyd nifer o sylwadau, awgrymiadau o ran eglurder a gwelliannau.

Ar y cyfan, croesawyd y ffocws ar ofal â phobl yn ganolog iddo er bod nifer fechan o weithwyr proffesiynol a ymatebodd yn teimlo y byddai gofal 'â'r claf yn ganolog iddo' yn fwy priodol. Mae'n ddiddorol nodi hefyd y trafodwyd y term 'pobl yn ganolog iddo' mewn rhai digwyddiadau ymgysylltu, a ffafriwyd 'pobl' yn hytrach na 'claf'.

Yn wir, roedd rhai am weld eglurhad ynglŷn â beth a olygir gan ofal â phobl yn ganolog iddo yng nghyd-destun safonau'r CFfC, gan y gall y cysyniad fod ag ystyr gwahanol mewn gwahanol leoliadau. Yn yr un modd, nododd rhai nad yw proffesiynoldeb yn ymwneud ag agweddau ac ymddygiadau yn unig ond ei fod hefyd yn ymwneud â gwybodaeth, cymhwysedd a sgiliau.

Dywedwyd hefyd nad oes unrhyw beth yn y safonau i gydnabod penodolrwydd fferylliaeth, sef arbenigedd meddygol, ac y gallai'r safonau fod yr un mor berthnasol i unrhyw weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai cyfraniad fferylliaeth fod yn fwy amlwg.

Er y bwriedir i'r safonau fod yn berthnasol i'r holl gofrestredigion waeth lle maent wedi'u lleoli, teimlai llawer eu bod wedi'u hanelu at y rheini sy'n gweithio mewn rolau clinigol, sy'n dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Crybwyllwyd yn aml hefyd, os yw'r safonau'n mynd i fod yn berthnasol i fyfyrwyr yna dylid gwneud hyn yn glir drwy'r safonau i gyd. O ran bod y safonau'n berthnasol 'ar bob adeg', awgrymodd rhai ymatebwyr bod angen eglurhad ar hyn. Roedd hwn yn rhywbeth a nodwyd hefyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dywedodd ychydig o ymatebwyr, yn sefydliadau ac unigolion, eu bod yn teimlo bod y safonau'n rhy gyffredinol, ac er nad aeth llawer ymlaen i ymhelaethu, soniodd y rhai a wnaeth nad oedd y safonau'n rhoi ystyriaeth i sut y byddai disgwyliadau gwahanol ar gofrestredigion gwahanol, yn dibynnu ar y lefelau amrywiol o gyfrifoldeb ac arbenigedd.

Dywedodd ymatebwyr unigol, gweithwyr fferyllol proffesiynol yn aml, y dylai'r safonau hefyd fod yn berthnasol i berchnogion a chyflogwyr, ac y dylid esbonio hyn yn y cyflwyniad.

Mewn cyfeiriad at y cyflwyniad yn datgan y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddilyn 'deddfau perthnasol' roedd nifer fechan o alwadau (gan sefydliadau) i fod yn fwy clir ynglŷn â chysylltiad deddfau, safonau, canllawiau a hyd yn oed gweithdrefnau gweithredu safonol a sut yr oedd crebwyll proffesiynol i'w gymhwyso o fewn y paramedrau a osodwyd gan y rhain. Yn wir, dywedodd rhai y dylid cyfeirio'n benodol at weithdrefnau gweithredu safonol yn y safonau fel ei bod yn glir i weithwyr fferyllol proffesiynol bod yn rhaid i'r rhain hefyd gael eu dilyn.

Hefyd, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am sut y caiff y safonau eu gweithredu a'u gorfodi, pa fecanweithiau a ddefnyddir a pha rôl fydd gan y rheoleiddiwr.

Yn olaf, gofynnodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad am y rhesymeg ar gyfer y safonau newydd, yn benodol pam y teimlwyd bod angen naw yn hytrach na'r saith yn y 'Safonau ymddygiad, moesegau ac ymarfer'. Cafwyd hefyd geisiadau y dylid gwneud y gwahaniaethau rhwng y safonau presennol a'r safonau newydd yn fwy clir, gan roi manylion beth sydd wedi newid, a pham. Gwnaed nifer o wahanol sylwadau ymarferol, er enghraifft adrannau yn y safonau presennol yr oedd ymatebwyr yn dymuno eu cadw gan y teimlwyd bod y rhain yn cyfleu eu hanfod yn well na'r geiriad newydd.

Myfyrwyr

2. Rydyn ni hefyd yn bwriadu gofyn i bob myfyriwr sy'n astudio i fod yn fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn hytrach na gweithio i god ymddygiad ar wahân. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?

Ydw	1,166	93.35%
Nac ydw	83	6.65%
Cyfanswm	1,249	100.00%

2a. Os nad ydych yn cytuno gyda'r cynnig hwn, esboniwch pam.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (93%) yn cytuno gyda'n dull i ofyn i bob myfyriwr sy'n astudio i fod yn fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol gyrraedd yr un safonau â gweithwyr proffesiynol cofrestredig. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r rheini a roddodd sylwadau pellach eu bod yn teimlo bod y safonau'n rhy llym ar gyfer myfyrwyr sydd ond newydd ddechrau ar y llwybr i ddod yn weithiwr proffesiynol. Nododd rhai nad yw geiriad presennol y safonau arfaethedig o bosibl yn uniongyrchol berthnasol i fyfyrwyr, er enghraifft, pan fo'r safonau'n sôn am ddarparu gofal neu ddangos arweiniad.

Cytunodd llawer y dylai myfyrwyr orfod cyrraedd y safonau mewn egwyddor ond roeddent yn gofyn am eglurhad ynglŷn â sut y byddai'r safonau'n cael eu cymhwyso ar gyfer myfyrwyr yn ymarferol. Nodwyd hefyd y dylai'r cyflwyniad ei gwneud hi'n glir y byddai'r safonau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr a rhai dan hyfforddiant.

Y naw safon ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

3. Ydy'r safonau yn eglur?

Ydyn	1,180	95.08%
Nac ydyn	61	4.92%
Cyfanswm	1,241	100.00%

3a. Beth, os unrhyw beth, sy'n aneglur?

4. Oes unrhyw safonau nad ydych yn cytuno â nhw? Os oes, esboniwch pam.

5. Oes unrhyw safonau ar goll yn eich barn chi? Os oes, esboniwch.

Unwaith eto, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (95%) yn teimlo bod y naw safon yn glir, cafwyd adborth er mwyn egluro pwyntiau neu i roi awgrymiadau ar gyfer ychwanegu.

Er bod defnyddwyr fferyllfeydd a gymerodd ran yn ein digwyddiadau ymgysylltu yn teimlo bod y safonau'n glir, ac yn adlewyrchu'r hyn y byddent yn ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol, dywedodd nifer o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd bod y safonau'n rhy gyffredinol gan ddweud y byddai enghreifftiau pellach, megis astudiaethau achos o arfer da a gwael yn ddefnyddiol. Teimlai gweithwyr proffesiynol a ymatebodd bod y safonau wedi eu hysgrifennu yn y fath fodd fel nad oeddent yn berthnasol i bawb, a'u bod y canolbwyntio'n bennaf ar rolau sydd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion a'r cyhoedd.

Fe wnaeth sawl un grybwyll yma ynglŷn â safon 9 ar arwain yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r adborth a roddwyd ar y pwynt penodol hwn yn awgrymu bod y term arwain rhywfaint yn aneglur, beth fyddai'n ei olygu yn y cyd-destun hwn a sut y dylai'r safon hon gael ei chymhwyso'n ymarferol. Er enghraifft, nid oedd ymatebwyr yn siŵr beth fyddai hyn yn ei olygu ar gyfer gwahanol grwpiau megis myfyrwyr, neu weithwyr proffesiynol gyda gwahanol lefelau o hynafedd a chyfrifoldeb. Gwnaed arsylwadau tebyg yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae safon 5 yn dweud na ddylai cofrestredigion adael i dargedau ac amcanion sefydliadol ddylanwadu ar y gofal y maent yn ei ddarparu, ac ar y cyfan croesawyd hyn. Fodd bynnag, soniodd rhai ymatebwyr y gallai fod yn anodd cynnal hyn yn ymarferol gyda sôn bod cyflogwyr yn rhoi pwysau ar staff fferyllfa i gyrraedd targedau gyda llwythi gwaith cynyddol yn gyffredinol ac weithiau lefelau staffio annigonol. Teimlwyd y dylai sefydliadau a chyflogwyr hefyd fod yn rhwymedig i'r safonau.

Ar nodyn cysylltiedig, cafodd y gofyniad i fynegi pryderon yn safon 8 ei gydnabod eto fel un pwysig, ond dywedodd ymatebwyr y gallai mynegi pryderon fod yn anodd yn ymarferol, gan na ymdrinnir â phryderon ac, yn y sefyllfa waethaf, mae person sy'n mynegi'r pryder yn wynebu erledigaeth. Roedd cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr gwasanaeth fferyllfeydd a

oedd yn cymryd rhan yn ein digwyddiadau, yn gyntaf, i weithwyr proffesiynol fynegi pryderon pan fo angen gwneud hynny ac yn ail, i weithwyr proffesiynol allu gwneud hynny heb ofni erledigaeth. Galwodd rhai o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd am i berchnogion a chyflogwyr hefyd gadw at y safonau. Gwnaed rhai sylwadau ynglŷn â'r gofyniad o i 'ymddiheuro' - teimlwyd y byddai eglurhad o fudd er mwyn ei gwneud hi'n glir na fyddai hyn o reidrwydd yr un fath â chyfaddef atebolrwydd.

Teimlwyd bod safon 3 ar gyfathrebu yn un o'r rhai pwysicaf gan ddefnyddwyr fferyllfeydd a fynychodd ein digwyddiadau rhanddeiliaid, gan y teimlwyd bod cyfathrebu da gyda chleifion yn arbennig o bwysig: megis cael cyngor ar sut i gymryd meddyginiaeth yn gywir neu fod â labeli clir. Hefyd, crybwyllwyd pwysigrwydd goresgyn rhwystrau iaith yn y cyd-destun hwn fel rhywbeth a ddylai o bosibl gael ei gynnwys yn y safonau. Crybwyllodd rhai ymatebwyr a oedd yn weithwyr proffesiynol y gofyniad y dylai sgiliau iaith Saesneg gael eu nodi'n benodol. Hefyd soniwyd am bwysigrwydd cyfathrebu da gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Yng nghyd-destun darparu gofal gyda'r claf yn ganolog iddo, cafwyd hefyd rai ymatebion a ofynnodd am gydnabyddiaeth o adnoddau cyhoeddus prin.

Roedd cleifion a gofalwyr yn teimlo bod safon 7 ynglŷn â phreifatrwydd yn bwysig. Roedd cytundeb cyffredinol y dylid cynnal preifatrwydd. Fodd bynnag, crybwyllwyd hefyd na fyddai hyn o reidrwydd yn digwydd gyda rhyngweithiadau yn aml yn digwydd wrth y cownter gyda defnyddwyr eraill y fferyllfa'n bresennol - soniwyd am roi gwybodaeth bersonol er mwyn cadarnhau presgripsiwn fel enghraifft. Nid oedd llawer yn gwybod am ystafelloedd ymgynghori preifat, neu dywedasant nad oedd unrhyw rai yn y fferyllfeydd yr oeddent hwy'n eu defnyddio.

Gweithredu'r safonau

6. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eich helpu i ddeall y safonau?

Ydw	1,196	96.22%
Nac ydw	47	3.78%
Cyfanswm	1,243	100.00%

7. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eglur ac yn hawdd eu deall?

Ydw	1,165	94.26%
Nac ydw	71	5.74%
Cyfanswm	1,236	100.00%

8. Beth sy'n aneglur? Nodwch pa safon neu safonau, ac esboniwch pam eich bod o'r farn bod problem gyda'r adran 'gweithredu'r safon'.

9. Oes unrhyw enghreifftiau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn yr adrannau 'gweithredu'r safon'?

Nodwyd unwaith eto yn yr adran hon y gallai'r safonau adlewyrchu'n well wahanol fathau o ymarfer fferyllol, yn cynnwys ymarfer y rheini nad sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion neu mewn lleoliadau clinigol. Unwaith eto, dywedwyd bod y safonau'n rhy gyffredinol, a chafwyd ceisiadau am fwy o enghreifftiau o arfer da a gwael, ac astudiaethau achos i gefnogi mabwysiadu safonau.

Gofynnodd ymatebwyr hefyd am gefnogaeth i ymdrin â phwysau'r gweithle a adroddwyd mewn fferyllfeydd - yn benodol enghreifftiau'n ymwneud â chrebwyll proffesiynol a chydbwysu gwahanol ofynion cyfreithiol, gwahanol ganllawiau, a byddai'r safonau'n cael eu gweld yn ddefnyddiol. Ar y llaw arall gofynnodd sefydliadau am gydnabyddiaeth o'r berthynas rhwng deddfau, safonau a chanllawiau neu weithdrefnau gweithredu safonol, a bod angen i grebwyll proffesiynol weithredu o fewn y paramedrau a osodir gan y rhain.

Gwerthoedd a chredoau personol

10. Mae'r safonau newydd a'u hesboniadau yn egluro bod yn rhaid cydbwysu gwerthoedd a chredoau personol gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda'r gofal maen nhw'n ei roi i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Ydych chi'n cytuno gyda'n dull?

Ydw	1,122	90.63%
Nac ydw	116	9.37%
Cyfanswm	1,238	100.00%

11. Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, esboniwch pam.

12. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, tua 90%, yn cytuno gyda'r dull a gynigwyd. Roedd rhai o'r sefydliadau fferylliaeth a wnaeth sylw ar y mater hwn yn croesawu'r dull a gymerwyd gan ei fod yn cadarnhau arfer presennol.

Roedd y mwyafrif a wnaeth sylw yn yr adran hon o'r farn na ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol allu gwrthod gwasanaethau ar sail eu credoau personol. Roedd rhai yn dadlau y byddai hyn yn mynd yn groes i'r egwyddor o ddarparu gofal gyda pherson yn ganolog iddo. Adleisiwyd y farn hon hefyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â defnyddwyr fferyllfeydd yn ogystal ag yn rhai o'r ymatebion gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli cleifion a'r cyhoedd.

Pwysleisiodd rhai o'r rheini a oedd yn cytuno â'r dull arfaethedig a nodwyd yn nogfen ymgynghori'r CFfC y byddai'n rhaid darparu ffyrdd gwahanol o gyrchu gofal neu wasanaeth.

Mynegwyd barn hefyd y gallai atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth arall ynddo'i hun fod yn groes i werthoedd a chredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol. Yn ogystal, dywedwyd y byddai gwrthod darparu gwasanaeth yn debygol o gael effaith anffafriol ar y gweithiwr fferyllol proffesiynol gan y byddai'n debygol o effeithio ar ei gyfleoedd cyflogaeth.

Dadansoddiad cydraddoldeb

13. Oes unrhyw agweddau ar y safonau a allai effeithio'n andwyol ar gleifion, y cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?

Nac oes	1,077	87.85%
Oes	149	12.15%
Cyfanswm	1,226	100.00%

14. Oes gennych sylwadau ar effaith bosibl y safonau?

Teimlwyd bod y safonau'n adlewyrchu'r hyn y mae fferyllwyr eisoes yn ei wneud neu y dylent eisoes fod yn ei wneud; dyma farn gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr fferyllfeydd. Nodwyd rhai meysydd a allai o bosibl gael effaith andwyol ar wahanol grwpiau. Mynegwyd safbwyntiau y gallai'r dull a gynigir yn y ddogfen ymgynghori i gredoau a gwerthoedd personol fferyllwyr gael effaith andwyol ar gleifion.

Mater arall a fynegwyd yma, yn ogystal ag fel ymateb i gwestiynau eraill, oedd ynglŷn â sut i drin unrhyw wrthdaro rhwng y safonau a disgwyliadau gan gyflogwyr. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith andwyol ar weithwyr fferyllol proffesiynol.

Cefnogi ymarfer fferyllol

15. Mae'n fwriad gennym adolygu a diweddarau ein canllawiau yn y meysydd canlynol:

- Mynegi pryderon, yn esbonio sut dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fynegi pryderon sydd ganddynt
- Cydsyniad, yn esbonio egwyddor cydsyniad
- Cyfrinachedd, yn esbonio'r hyn y dylid ei wneud i ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth a ddaw i law wrth weithio'n broffesiynol
- Cynnal ffiniau rhyw clir, yn esbonio pwysigrwydd cadw ffiniau rhyw clir ac yn egluro'r cyfrifoldebau sydd gan weithwyr fferyllol proffesiynol
- Cydbwyso credoau personol a gofal cleifion a'r hyn y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ei wneud os yw eu credoau crefyddol neu foesol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol i gleifion a'r cyhoedd?

Ydych chi'n cytuno gyda'r meysydd rydyn ni wedi eu nodi?

Ydw	1,200	97.24%
Nac ydw	34	2.76%
Cyfanswm	1,234	100.00%

16. Pa gefnogaeth arall, os o gwbl, rydych chi'n credu bod ar weithwyr fferyllol proffesiynol ei hangen?

Gorffennodd holiadur yr ymgynghoriad drwy ofyn ynglŷn ag anghenion cefnogaeth ychwanegol. Gwnaed nifer o awgrymiadau, a dyma'r rhai a grybwyllwyd amlaf:

Cefnogaeth ar gyfer delio â phwysau yn y gweithle a drafodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad - amodau gwaith, staffio, tâl, bwlio yn y gweithle - yn cynnwys rheoli gwrthdaro rhwng gofynion busnes ac anghenion y claf. Hefyd, cefnogaeth parthed defnyddio eich crebwyll proffesiynol eich hun - sut i gydbwyso rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol. Yn yr un modd, gofynnwyd am gefnogaeth gyda materion yn ymwneud â mynegi pryderon - a chael eglurder ynglŷn â 'llwybr' ar gyfer mynegi pryderon a hefyd cefnogaeth ar gyfer chwythwyr chwiban heb ofni erledigaeth. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn angenrheidiol i berchnogion a rheolwyr fferyllfeydd hefyd i gael safonau a chael eu dal yn atebol ar y materion hyn parthed y gweithle.

Dywedwyd hefyd, er mwyn cyflwyno'r safonau hyn yn llwyddiannus, y dylai bod hyfforddiant a deunydd hyfforddi ar gael. Yn fwy cyffredinol, enghreifftiau bywyd go iawn o arfer da a gwael i gefnogi'r safonau; a hefyd gofynnwyd am gysylltiadau i ganllawiau perthnasol. Ar sail mwy parhaus, cefnogaeth gyda dysgu, hyfforddiant neu ddatblygiad - yn

cynnwys amser dysgu wedi'i ddiogelu, diwrnodau DPP, hyfforddiant arbenigol (e.e. hyfforddiant ar reolaeth, deddfwriaeth, ymwybyddiaeth dementia).

Hefyd, crybwyllwyd yn aml gefnogaeth ar gyfer materion diogelu data a chyfrinachedd, sut i ddefnyddio a chyrchu data claf, cofnodion gofal cryno, a defnyddio TG a thechnoleg sy'n sail i'r rhain.

Meysydd neu ddulliau eraill o gefnogaeth a grybwyllwyd oedd:

- Llinell gymorth am ddim a chyfrinachol i gael cyngor a chefnogaeth ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol
- Pwysigrwydd grwpiau cefnogi, adolygiadau gan gymheiriaid, neu fforwm rheolaidd i drafod materion a rhannu pryderon
- Cefnogaeth debyg i undeb parthed tâl, contractau ac ariannu fferyllwyr
- Canllawiau ar gyfer myfyrwyr a sut y mae safonau'n berthnasol iddynt hwy

Roedd meysydd eraill lle byddai cefnogaeth a chanllawiau pellach yn fuddiol yn cynnwys:

- Diogelu
- Cyfathrebu
- Arwain
- Cyfryngau cymdeithasol
- Cydsyniad

Atodiad A: Sefydliadau a ymatebodd

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU

Cymdeithas Fferyllwyr Ysbyty Addysgu

Cymdeithas Feddygol Prydain

Fferyllfa Bat & Ball

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

BLM

Cymdeithas Fferyllwyr Boots

Buchanhaven Pharmacy Ltd.

Bupa Home Healthcare

Buttercups Training Ltd

Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Caerdydd

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Yr Alban

Fferyllfa Carters

Rhwydwaith Cristnogion mewn Fferylliaeth (CiP)

Fferyllfa Clifton

Fferylliaeth Gymunedol Swydd Gaer a Chilgwri, Pwyllgor Fferyllol Lleol

Fferylliaeth Gymunedol yr Alban

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Pwyllgor Fferyllol Lleol Cernyw ac Ynysoedd y Sili

Darlington's Peoples Party

Pwyllgor Fferyllol Lleol Dorset

East Sussex plc

ENH Pharma Ltd

Gweithredu ar Epilepsi

Fforwm Pobl Hŷn

Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd (GIREs)

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Guys a St Thomas
Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd
Fferyllfa Hadlow
Pwyllgor Fferyllol Lleol Hampshire
Addysg Iechyd Lloegr - Caint, Surrey, Sussex
Addysg Iechyd Lloegr - Llundain a De Ddwyrain Lloegr
Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
Gwella Gofal Iechyd yr Alban
Healthwatch Bwrdeistref Bedford
Healthwatch Bromley
Healthwatch Dwyrain Swydd Gaer
Healthwatch Dudley
Healthwatch Swydd Lincoln
Healthwatch Rutland
Healthwatch Southend
Healthwatch Torbay
Pwyllgor Fferyllol Lleol Humber
International Longevity Centre - UK
King's College Llundain
Prifysgol Kingston
L. Rowland and Co (Retail) Ltd masnachu fel Fferyllfa Rowlands
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Cymunedol Leeds
Ysgol Fferylliaeth Caerlŷr, Prifysgol De Montfort
Gwasanaethau Fferylliaeth Livewell Southwest
Rhwydwaith Prif Fferyllwyr Llundain
Ysgol Fferylliaeth Manceinion
Tîm Rheoli Meddyginiaethau, Grŵp Comisiynu Clinigol Bromley
Mildcare Ltd
Fforwm Gofal Cenedlaethol
Cymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol

GIG Ayrshire ac Arran

GIG Addysg yr Alban

GIG Lloegr

GIG Glasgow Fwyaf a Clyde

Grŵp Cydraddoldeb a Chlaf Ganolog: Gwasanaeth Dibyniaeth Glasgow Fwyaf a Clyde y GIG

Grŵp Cyfarwyddwyr Fferylliaeth GIG Yr Alban

Gwasanaeth Fferyllol Arbenigol y GIG

Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Stockport

Pwyllgor Fferyllol Lleol Gogledd Ddwyrain Llundain

Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Athrofaol Nottingham (Tîm Addysg a Hyfforddiant Fferylliaeth)

Numark

Cymdeithas y Cleifion

Fferyllfa Canolfan iechyd Penrith

Grŵp Ymgynghorwyr Fferyllol, Grŵp Comisiynu Clinigol Wandsworth

Cymdeithas Amddiffyn Fferylliaeth

Cyngor Ysgolion Fferylliaeth

Fferyllfa Voice

Prifysgol Robert Gordon

Coleg Nyrsio Brenhinol

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol Keele

Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol Nottingham

Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol Bradford

Scientia Skills

Fferyllwyr Arbenigol mewn Cam-drin Sylweddau yr Alban

Fforwm Meddygol Seciular

Fferyllfa Severn

Partneriaeth Ymddiriedolaeth Sefydledig Athrofaol GIG De Essex

Pwyllgor Fferylliaeth Lleol De Swydd Stafford

Fforwm Gofal

Is-grŵp Gweithredol Addysg a Hyfforddiant Pwyllgor Prif Fferyllydd Cymru Gyfan

Partneriaeth LGB&T Cenedlaethol

Cymdeithas Genedlaethol Epilepsi

Prif Fferyllwyr Pediatrig y DU

Ysbyty Athrofaol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Southampton

Prifysgol Brighton

Prifysgol Central Lancashire

Prifysgol Hertfordshire

Prifysgol Huddersfield

Prifysgol Reading

Prifysgol Strathclyde

Fferyllfa Vantage

Well

Fferyllfa Willows

Gwasanaethau Addysg a Datblygiad y Gweithlu

Atodiad B: Digwyddiadau ymgysylltu

Digwyddiadau: ymgynghoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Digwyddiadau CFFC

- Gweithdy gyda myfyrwyr MPharm, Glasgow, 20 Ebrill 2016
- Grŵp ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd, Glasgow, 20 Ebrill 2016
- Digwyddiad rhanddeiliaid gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, Glasgow, 20 Ebrill 2016
- Grŵp ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd, Llundain, 26 Ebrill 2016
- Grŵp ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd, Caerdydd, 27 Ebrill 2016
- Digwyddiad rhanddeiliaid gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, Caerdydd, 27 Ebrill 2016
- Gweithdy gyda myfyrwyr MPharm, Manceinion, 10 Mai 2016
- Grŵp ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd, Manceinion, 10 Mai 2016
- Digwyddiad rhanddeiliaid gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, Manceinion, 10 Mai 2016
- Digwyddiad rhanddeiliaid gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, Llundain, 17 Mai 2016
- Grŵp ffocws gydag arweinwyr polisi sefydliadau cleifion a'r cyhoedd, 19 Mai 2016
- Grŵp ffocws gyda Fforwm Pobl Hŷn Llundain Fwyaf, 24 Mai 2016
- Grŵp ffocws gyda grŵp cyfranogi cleifion Fferyllfa Whitworth, 26 Mai 2016
- Grŵp ffocws gyda fforwm rhieni a gofalwyr Tower Hamlets, 15 Mehefin 2016
- Grŵp ffocws gydag Alliance, 23 Mehefin 2016

Digwyddiadau allanol

- Cyflwyniad i Bwyllgor Fferyllol Lleol Sandwell, 16 Mawrth 2016
- Cyflwyniad i fyfyrwyr technegwyr fferyllol yng Ngholeg Caeredin, 16 Mawrth 2016
- Cyflwyniad i Gyngor Ysgol Fferylliaeth, 17 Mawrth 2016
- Cyflwyniad i Swyddogion Cenedlaethol APTUK, 19 Mawrth 2016
- Cyflwyniad yng Nghynhadledd Flynyddol Myfyrwyr Fferyllol Prydain, 22 Mawrth 2016

- Cyflwyniad yn nigwyddiad ar y cyd WCPPE a RPS, 11 Ebrill 2016
- Cyflwyniad gyda changen Llundain APTUK, 13 Ebrill 2016
- Cyflwyniad yn nigwyddiad Fferyllfa Voice, 14 Ebrill 2016
- Cyflwyniad i Brifysgol Brighton, 14 Ebrill 2016
- Cyflwyniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Fferyllwyr Boots, 19 Ebrill 2016
- Cyflwyniad yng Nghyngres Fferylliaeth Glinigol, 22-23 Ebrill 2016
- Cyflwyniad i Gymdeithas Cyfraith a Moesegau Fferylliaeth, 4 Mai 2016
- Cyflwyniad i Fferylliaeth Gymunedol Yr Alban, 11 Mai 2016
- Gweithdy gyda Diverse Cymru, 17 Mai 2016
- Diweddariad i gyfarfod blynyddol Prif Fferyllwyr Gogledd Lloegr, 19 Mai 2016
- Cyflwyniad yng Nghynhadledd Flynyddol APTUK, 10-11 Mehefin 2016
- Cyflwyniad yng RPS Black Country, 14 Mehefin 2016
- Cyflwyniad ym Mhwyllgor Fferyllol Lleol East Sussex, 16 Mehefin 2016
- Cyflwyniad i'r Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol, 21 Mehefin 2016
- Stondin yn yr Wyl Gofalwyr Ifanc Genedlaethol, 25 Mehefin 2016